

# Newyddion

The Society  
For Welsh  
Traditional  
Instruments



Cymdeithas  
Offerynnau  
Traddodiadol  
Cymru



*Cyflwyno Telynor Cymru 2016 yn Cwlwm Celtaidd*

# News 2017

[www.clera.org](http://www.clera.org)  
[www.sesiwn.com](http://www.sesiwn.com)

[www.yglerorfa.com](http://www.yglerorfa.com)  
[www.alawoncymru.com](http://www.alawoncymru.com)

[www.telynor.cymru](http://www.telynor.cymru)

# Newyddion y flwyddyn

## *Telynor Cymru 2016*

Dathlwyd dauganmlwyddiant genedigaeth John Roberts *Telynor Cymru* yn 1816 yn y Drenewydd a Gregynog ar ei benblwydd, dioch i gefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Trefnwyd cyngherddau a gweithdai i ddysgu alawon a modd chwarae'r Sipsiwn Cymreig ar draws Cymru. Robin Huw Bowen fu'n arwain y cynllun, o'i brofiad dysgu dan aden Eldra Jarman, yr olaf o linell di-dor telynorion Sipsi teulu John Roberts.

Ychwanegwyd at wefan **[www.telynor.cymru](http://www.telynor.cymru)** fel cwrs ar-lein cyflawn gyda cherddoriaeth i'w hargraffu a fideos byr i ddangos manylion a thechnegau chwarae'r alawon ym modd fywiog a chyffrous. Bydd yr adnoddau hyn a'r cynllun ar gael i'r cenhedloedd i ddod, ac ym mhob cwr o'r byd: tanysgrifiodd delynores o'r America ar y cwrs ar-lein y llynedd.

## *Clybiau Alawon Clera*

Parhau i redeg ac ehangu mae ein clybiau alawon ar draws Cymru. Dechreuwyd rhai newydd hefyd gan fynychwyr brwd oedd am sefydlu clwb newydd yn eu hardal ee. yn Six Bells. Mae'n gwefan **[www.sesiwn.com](http://www.sesiwn.com)** yn hysbysebu'r holl ddigwyddiadau, yn hyrwyddo offerynwyr i ddysgu, chwarae a mwynhau ein cerddoriaeth draddodiadol, gyda chefnogaeth pwysig ein cyhoeddiadau *Alawon Cymru* a *Pwt ar y bys* a'n gwefan sy'n eu cefnogi, **[www.alawoncymru.com](http://www.alawoncymru.com)**.

## *Clera yn yr Eisteddfod Genelaethol*

Parhau mae cyfraniad Clera fel un o'r partneriaid sy'n cyfrannu at Tŷ Gwerin yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Sicrhawn bod lle blaenllaw i'n cerddoriaeth draddodiadol yn y brifwyl, gyda sesiwn werin bob dydd, yn rhoi cyfle i offerynwyr ddysgu a chyd-chwarae. Daeth tua 20 o aelodau clybiau alawon y de-ddwyrain at ei gilydd i gyflwyno sesiwn *Gwerin Gwyrdd* ar lwyfan Tŷ Gwerin. Cawn hefyd berfformiadau, cystadlaethau a chyflwyniadau yno, ac mae'n le arbennig i'n haelodau cwrdd at ei gilydd a threfnu sesiwn fach neu ddwy o gwmpas y maes.

## *Aelodaeth*

Diolchwn yn fawr i'n holl aelodau am eu cyfraniadau blynyddol sydd yn ein galluogi i ymestyn ein gwaith drwy ymgyrchoedd cyffrous fel *Telynor Cymru 2016*, gan gynnig am a derbyn cefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Maent hefyd yn ein helpu i gynnal clybiau alawon, y Glerorfa a'n holl weithgareddau dros Gymru. Mae gennym 158 o aelodau wrth baratoi'r cylchlythyr hwn, gyda 13 yn talu drwy siec am flwyddyn ar y tro a 145 yn talu drwy orchymyn banc. Mae talu drwy orchymyn banc yn arbed gwaith gweinyddu a does dim ymrwymiad i barhau eich taliadau.

## Clera's year

### *Telynor Cymru 2016*

This project has been our major work over the past year, celebrating the 200th anniversary of the birth of the famous Welsh Gypsy harpist, John Roberts, *Telynor Cymru* in 1816.



Supported by the Wales Arts Council, workshops have run across Wales to teach the melodies and style of the gypsy harp. Robin Huw Bowen led the project, using lessons learned from Eldra Jarman, the last Gypsy Harp player in the line of John Roberts. The [www.telynor.cymru](http://www.telynor.cymru) website now provides a complete on-line course with a wide selection of *Telynor Cymru* tunes.

### *Clera Tune Clubs*

Our Tune Clubs continue to run across Wales and put on performances from time to time; new ones have started, such as the one in Six Bells in South-east Wales. The [www.sesiwn.com](http://www.sesiwn.com) website lists the Tune club meetings as well as Welsh session across Wales. Our tune books *Alawon Cymru* and *Pwt ar y bys* and the related on-line sound files on [www.alawoncymru.com](http://www.alawoncymru.com) offer support.

### *Clera at the National Eisteddfod*

Clera continues its involvement as a partner in the hugely popular Tŷ Gwerin (*Folk House*) in the National Eisteddfod. This ensures that our traditional music has a prominent place in our foremost national festival, with a Welsh folk session every day, giving an opportunity to learn and play our traditional tunes together. Tŷ Gwerin has performances throughout the day, competitions and other presentations, and provides a focal point for players to meet and arrange playing sessions around the Eisteddfod Maes .

### *Membership*

Thanks to all our members for your annual subscriptions. This is the financial foundation for all our work and enable us to apply to the Wales Arts Council to extend our work with new projects such as *Telynor Cymru 2016*. They also help us to keep our tune clubs, workshops and sessions going. We have 158 members at the time of publication, with 13 paying by cash or cheque and 145 by standing order. A standing order from your bank saves on administration work and you are free to cancel if you wish to do so.



# Cwrdd â'r cerddorion .....



## Huw Roberts

Mae Huw wedi bod yn ffidlwr a thelynor teires blaenllaw ac yn aelod allweddol o Clera ers lawer dydd, yn dathlu traddodiadau gwerin Ynys Môn a holl Gymru.

*Huw has been a leading fiddler and triple harpist and a key member of Clera for many years, celebrating Welsh harp and fiddle playing in his native Anglesey.*

## **Sut ddechreuoch chi chwarae Cerddoriaeth draddodiadol Gymreig?**

*Cerys:* Mae Rhiain Bebb, athrawes Cymraeg fy mam, hefyd yn chwarae a dysgu'r delyn. Gofynnodd mam i fi os oeddwn i eisiau dechrau gwersi telyn, ac atebais "mwy nag unrhywbeth arall yn y byd."

*Huw:* O ni yn adnabod sawl hwiangerdd draddodiadol a chân werin Gymraeg wrth gwrs ers yn blentyn - dysgu nhw yn yr ysgol ac hefyd clwad nhw ar yr aelwyd. O ni yn gwybod ambell i alaw ddawns hefyd fel Croen y Ddafad Felen ac ati. Yn hwyrach cyfeilio i ddawns werin yn yr ysgol uwchradd ambell waith ac yna mwy o hyn yn ystod dyddia coleg yng Nghaerfyrddin (Coleg y Drindod) Yno hefyd roedd Tudur Huws Jones ( Cilmeri, Gwerinos) - yntau o Langefni - ein dau yn treulio pnawnia Sul pan adra o'r coleg yn dysgu alawon o record Nansi Richards Telynores Maldwyn!! Cyfnod lle y daeth grwpia fel y Dubliners ar Chieftains yn ddylanwad mawr arnaf fi ac eraill wrth gwrs!!

## **Beth yn eich barn chi sy'n arbennig am gerddoriaeth draddodiadol Gymreig?**

*Cerys:* Yn bersonol, mae'r delyn deires yn rhywbeth sydd heddiw yn hollol unigryw i gerddoriaeth werin Cymru. Hefyd, fel hefo cerddoriaeth werin ym mhob man, mae'r alawon hefo cymeriad eu hunain, ac mae yna deimlad cryf o gymuned.

*Huw:* -- Alawon melodig a swynol dros ben sy'n canu allan .."Bel Canto" fel dywed yr Eidalwyr!! Alawon dawns hefyd sy'n fwy melodig i mi na rhai'r Gwyddelod - debycach i rai o'r Alban ar y cyfan. Y delyn yn ganolbwynt ac yn hollol allweddol i ddatblygiad cymeriad y swmp o'r alawon Gymreig!!.

# Meet the musicians .....

## Cerys Havana Hickman

*Mae Cerys yn chwaraewr ifanc sy'n frwdfrydig wrth chwarae'i thelyn deires ac offerynnau eraill. Bu'n rhan o gynllun Telynor Cymru 2016 ac mae hi wedi cystadlu ar lwyfan Tŷ Gwerin.*

Cerys is an enthusiastic young triple harp player who has been part of the *Telynor Cymru 2016* project and has competed on the stage of Tŷ Gwerin over the last few years.



### ***What started you in playing Welsh traditional music?***

*Cerys:* One day mum asked me if I wanted harp lessons, and I responded "More than anything else in the world." I went to Rhian Bebb who she knew.

*Huw:* I knew quite a few traditional lullabies and folk songs as a child - learning and hearing them in school and at home. I knew a few dance tunes too, like Croen y Ddafad Felen. I accompanied folk dancing in secondary school and did more of this when at Trinity College Carmarthen. Tudur Huws Jones (Cilmeri and Gwerinos) - also from Llangefni - was there and we spent Sunday afternoons when home from college learning tunes from a record of Nansi Richards, Telynores Maldwyn. The Dubliners and the Chieftains also had a big influence on me at the time.

### ***What in your view is special about Welsh traditional music?***

*Cerys:* The triple harp, which I play, is something unique to Welsh traditional music and as with all folk music everywhere, the tunes have their own character and there's a strong sense of community.

*Huw:* The airs and dance tunes are more melodic than Scottish and Irish tunes and sing out like Italian melodies, very much suited to the harp.

### ***Do you have any favourite Welsh tunes?***

*Cerys:* I like the miserable, dark, minor key ones like Ymadawiad y Brenin, but there are also some sweet songs, such as Y Gwydr Glas and Y Fwyalchen.

*Huw:* Lots, including all the common jigs and airs e. Cader Idris, Llwyn Onn, Pwt ar y bys and Môn.

### ***Who are your musical heroes?***

*Cerys:* The main one would have to be Nansi Richards, who's responsible for ensuring the Welsh triple harp tradition remains unbroken, but I also admire lots of the musicians doing that today: Rhian Bebb and Robin Huw Bowen with the triple harp, and bands like Calan for doing folk music in a more contemporary way.

*Huw:* All the triple harpists and fiddlers and traditional singers that ever lived!!

**Cwrdd â'r cerddorion ..... parhad**

***Oes gennych hoff alawon Cymreig?***

*Cerys:* Dwi'n hoffi'r alawon trist a thywyll, fel Ymadawiad y Brenin, ond mae yna hefyd llawer o ganeuon hyfryd, fel Y Gwydr Glas a'r Fwyalchen.

*Huw:* Nifer - yn eu plith hen ffefrynnau fel Bugeilio'r Gwenith Gwyn, Llwyn Onn, Cader Idris, Pwt ar y Bys, Mon, Merch Megan, Ty Coch Caerdydd, ar holl jigiau cyfarwydd a nifer o rai llai cyfarwydd fel Lliwi Lili ymysg Drain a Pell o Fon!

***Pwy yw eich arwyr cerddorol?***

*Cerys:* Yn amlwg mae Nansi Richards yn ysbrydoliaeth enfawr, gan mai hi sy'n gyfrifoli am gadw'r delyn deires fel traddodiad di-dor, ond dwi hefyd yn edmygu llawer iawn o'r bobl sy'n gwneud hynny heddiw, fel Rhian Bebb a Robin Huw Bowen ym myd y delyn deires a bandiau fel Calan sy'n chwarae cerddoriaeth gwerin mewn ffordd mwy gyfoes.

*Huw:* yr holl delynorion a fu, a sydd hyd heddiw yn allweddol yn hanes y delyn deires Gymreig a'r ffidil werinol yn Nghymru a chanu penillion yn yr hen ddull !!,

***Pwy yw eich hoff gerddor(ion) gwerin?***

*Cerys:* Does gen i ddim un gan fod pawb yn gwneud pethau mor wahanol!

*Huw:* Mae na nifer .. o ran y delyn pwy well na'r enwog Nansi Richards, - ac o ran y ffidlwrs ... mae y diweddar Jean Carignan o Quebec yn un o'm ffefrynna!

***Fedrech enwi eich hoff brofiad mewn cerddoriaeth draddodiadol?***

*Cerys:* Y brofiad mwyaf cofiadwy yw Gwerin Gwallgo, y cwrs cerddoriaeth gwerin i bobl ifanc yng Nglan-Llyn, ble gwnes i gwrdd â chymaint o gerddorion gwerin ifanc o Gymru gyfan. Roedd yna hefyd yr wythnos Basgaidd ym Machynlleth.

*Huw:* Bod gya'r holl delyna teires na yn y Ty Gwerin yn Steddfod Maldwyn!!

***Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer eich cerddoriaeth yn y dyfodol?***

*Cerys:* Dwi'n ysgrifennu cerddoriaeth fy hun, a hoffwn ddyfalbarhau gyda hynny, a dwi'n awyddus i ddechrau chwarae gyda mwy o bobl. Dwi hefyd yn trio dysgu chwarae'r ffidil, gan nad oed angen Dad a char i'w symud (yn wahanol i'r delyn...)!

*Huw:* Ers sawl blwyddyn dwi di bod yn cyfansoddi alawon ac ella bod hi'n bryd i mi gyhoeddi rhai ohonynt. Hefyd dwi'n meddwl am fynd i'r stiwdio i recordio albwm ffidil (neu ffidil a thelyn) hefo Sion y mab - alawon Môn ddoe a heddiw o bosib!!

***Pa gyngor sydd gennych i'r rhai sydd yn dechrau ar eu taith werinol?***

*Cerys:* Y peth gwnaeth fy annog i pan gwnes i ddechrau chwarae'r delyn oedd chwarae gyda phobl eraill. Mwynhau gwneud hynny oedd y peth gwnaeth gwneud i gerddoriaeth gwneud synnwyr i mi, a nid cerddoriaeth gwerin yn unig.

*Huw:* Dysgwch ar gof cymaint a fedrwch chi o'r holl alawon a chaneuon traddodiadol hyfryd ein cenedl a gadewch i bawb drwy Gymru a thu hwnt wybod amdan ein traddodiad gwerin. Hefyd cofiwch fod y delyn yn ganolog i'n traddodiad felly ceisiwch y swm CYMREIG 'na!!

## Meet the musicians ..... continued

### ***Who is your favourite traditional musician?***

*Cerys:* I can't pick a favourite because everyone does such different things!

*Huw:* Many, but especially Nansi Richards on the harp and Jean Carnigan from Quebec on the fiddle.

### ***Could you name you most memorable traditional music experience?***

*Cerys:* Probably the most memorable experience was the Gwerin Gwallgo course in Bala for young folk musicians- it opened my eyes to the vast amount of young people playing folk music all over Wales. There was also the Basque festival in Machynlleth, where I got to see young people from the Basque Country's approach to folk music..

*Huw:* Lots again, but especially being part of the choir of 20 or so triple harps at the 2015 Maldwyn Eisteddfod.

### ***What future plans do you have for your traditional music?***

*Cerys:* I write my own music, and I'd like to keep that up, and I'm eager to start playing with more people. I'm also trying to learn to play the violin, because I don't need my dad and a car to transport it (unlike the harp...)!

*Huw:* I've been composing tunes for many years and now think it's time for me to publish them and to record a fiddle and harp album with Siôn my son.

### ***What advice would you give to those starting on their folk journey?***

*Cerys:* The thing that really helped me when I started playing the harp was playing with other people, which I think, at the end of the day, is what folk music is all about. Doing that, and having fun whilst doing it, made all sorts of music make sense to me, and not just folk music.

*Huw:* Learn as many of these lovely traditional tunes that we have as a nation and let everyone in Wales and beyond know about our folk tradition, and remember that the harp is at its core.

<b>Gwefannau Clera</b>		<b>The Clera websites</b>
Gwybodaeth gyffredinol	<a href="http://www.clera.org">www.clera.org</a>	General information
Y Glerorfa	<a href="http://www.yglerofa.com">www.yglerofa.com</a>	Y Glerorfa
Clybiau alaw a sesiynau	<a href="http://www.sesiwn.com">www.sesiwn.com</a>	Tune clubs and sessions
Alawon i chwarae	<a href="http://www.alawoncymru.com">www.alawoncymru.com</a>	Tunes to play
Cwrs Telyn Sipsiwn	<a href="http://www.telynor.cymru">www.telynor.cymru</a>	Welsh Gypsy harp course



# Cyhoeddiadau - Clera - Publications

**Y Glerorfa – yn fyw**

**CD**

**£12**

(pris aelodau £10)



**Pwt-ar-y-bys**

**Llyfr a 2 CD**

**£12**


(pris aelodau: £10)

**Alawon Sesiwn**

**Llyfr + cefnogaeth ar-lein**

**ar [www.alawoncymru.com](http://www.alawoncymru.com)**

**£6 (pris aelodau £5)**



**Hobed**  
**Llyfr alawon Y Glerorfa**

**£6**

(pris aelodau £5)

Drwy'r post, + £3 cludiant - Mail order, + £3 postage

Clera, 57 Beulah Road, Caerdydd/Cardiff CF14 6LU